Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Twbercwlosis Buchol

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

**Stamp swyddfa APHA**

# Cais ar gyfer Uned Besgi Gymeradwy yng Nghymru

**Nodiadau Pwysig**

- Gweler y canllawiau perthnasol ar GOV.UK am arweiniad wrth baratoi'r cais hwn: https://www.gov.uk/government/publications/approved-finishing-units-for-cattle-application
- Dylid cyflwyno ceisiadau i Swyddog Arweiniol Milfeddygol Cymru yn: Gwasanaethau Maes Cymru yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), Swyddfeydd Penrallt, Caernarfon, LL5 1BN neu eu hanfon drwy e-bost i APHA.CymruWales@apha.gov.uk
- Mae'r amodau ar gyfer cymeradwyo'r unedau hyn i'w gweld yn Atodlen 1.
- Cwblhewch Rannau A, B ac C ac atodwch y dogfennau ategol gofynnol a restrir yn Rhan CH.
- Ni dderbynnir ffurflenni anghyflawn.
- **Defnyddiwch briflythrennau.**

## Rhan A – Manylion yr ymgeisydd

1. Enw, cyfeiriad a chod post y sawl sy'n gwneud cais am y gymeradwyaeth (sef y sawl sy'n gyfrifol am reoli'r Uned Besgi Gymeradwy (AFU)):
2. Swydd yr ymgeisydd/unigolyn cyfrifol:
3. Rhif Ffôn (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol):
4. Rhif Ffacs. (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol):
5. Rhif Ffôn Symudol (os oes un):
6. Cyfeiriad e-bost (os oes un):

## Rhan B – Manylion yr uned arfaethedig i'w chymeradwyo

1. Enw a math o Uned Arfaethedig: Magu ☐ Pesgi ☐
2. Rhif Daliad yr Uned:
3. Perchennog/perchnogion y safle (os yw hynny'n wahanol i Ran A)
4. Cyfeiriad post y safle (os yw'n wahanol i Ran A)
5. A oes unrhyw wartheg eraill yn eich meddiant neu o dan eich gofal? Oes ☐ Nac oes ☐
6. Os 'Oes', rhowch fanylion gan gynnwys Rhif y Daliad (CPH), nifer y gwartheg a lleoliad y gwartheg:
7. Cyfeirnod Map yr Uned Arfaethedig:
8. A fyddwch yn derbyn gwartheg o fuchesi eraill nad ydynt dan gyfyngiadau TB? Byddaf ☐ Na fyddaf ☐

9. A oes offer neu bersonél sy'n benodol ar gyfer yr uned? Oes ☐ Nac oes ☐

10. A oes cyfleusterau profi digonol? Oes ☐ Nac oes ☐

11. Yr uchafswm arfaethedig o wartheg yn yr uned

12. Cyfnod Profi TB

**Rhan C – Datganiad**

**RHAID i'r datganiad gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd (yr unigolyn cyfrifol) a enwir yng nghwestiwn 1 Rhan A.**

- Hoffwn wneud cais am gymeradwyaeth i weithredu Uned Besgi Gymeradwy. Rwy'n deall bod cymeradwyaeth yn amodol ar archwiliad gan un o Filfeddygon APHA ac y gellir nodi amodau ychwanegol i'r rhai a restrir yn Atodlen 1 os rhoddir cymeradwyaeth.
- Datganaf drwy hyn:
- Fod y wybodaeth a ddarparwyd gyda'r ffurflen gais hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred
- Rwy'n ymrwymo i hysbysu APHA ar unwaith os bydd newid sylweddol o ran rheolwyr neu staff neu os bydd y safle sydd wedi'i gymeradwyo yn destun gwaith atgyweirio strwythurol, gwaith cynnal a chadw neu waith adnewyddu sylweddol
- Fi fydd yn gyfrifol am reoli'r uned
- Byddaf yn sicrhau bod gweithrediad yr uned yn bodloni'r holl ofynion sy'n ymwneud â lles gwartheg yn yr uned
- Byddaf yn sicrhau bod y system sy'n casglu dŵr ffo yn bodloni'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Diogelu Dŵr, Pridd ac Aer Cymru
- Rwyf wedi darllen a deall yr amodau cymeradwyo yn Atodlen 1 ac rwy'n ymrwymo i gydymffurfio â nhw
- Rwy'n deall y caiff manylion yr AFU hon, ynghyd â'm manylion cyswllt, eu rhoi ar wefan gyhoeddus GOV.UK

Llofnod

Enw mewn priflythrennau Dyddiad

---

**Diogelu Data**
I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

---

**RHAN CH - Dogfennau sydd i'w cyflwyno gyda'r cais hwn**

| | Cadarnhawyd eu bod wedi dod i law swyddfa APHA |
|---|---|
| • Cynllun o'r safle (ardal yr anifeiliaid, mannau bioddiogelwch a maint y safle i'w gymeradwyo)* | ☐ |
| • Os caiff gwartheg eraill eu cadw ar y safle hwn, rhaid i achosion o symud gwartheg ac offer a draenio elifion a dŵr gwastraff gael eu hanodi ar y cynllun* | ☐ |
| • Cynllun bioddiogelwch yn cwmpasu symud personél, peiriannau, offer a cherbydau i'r uned ac oddi yno* | ☐ |
| • Cynllun ar gyfer trin tail/slyri/sarn* | ☐ |

*ni ellir prosesu ceisiadau heb y dogfennau hyn.

**Rhan D – Archwiliad gan un o Filfeddygon APHA (i'w chwblhau gan APHA yn unig)**

Enw'r Milfeddyg APHA sy'n archwilio'r safle

Dyddiad yr archwiliad

Yr uchafswm arfaethedig o wartheg yn yr uned

A oes unrhyw anifeiliaid eraill yn cael eu cadw ar y safle? Oes ☐ Nac oes ☐

Os ‘Oes’, rhowch fanylion a dangoswch i ba raddau y caiff yr anifeiliaid eu gwahanu ar gynllun yr uned:

Disgrifiwch y system ar gyfer casglu dŵr ffo o'r uned:

Disgrifiwch sut y caiff tail, sarn a slyri eu storio a'u gwaredu:

Disgrifiwch y mesurau a roddir ar waith i rwystro bywyd gwyllt rhag cael mynediad at yr adeiladau:

Os oes offer, peiriannau a phersonél ac ati'n cael eu rhannu â safle arall, disgrifiwch y cynllun bioddiogelwch sydd ar waith:

Disgrifiwch y cyfleusterau profion TB:

A fydd gwartheg o fuchesi nad ydynt dan gyfyngiadau TB yn cael eu cynnwys yn yr uned?
Byddant ☐ Na fyddant ☐

**Ar gyfer pob uned:**

Rwy'n cadarnhau'r canlynol (er mwyn i'r safle gael ei gymeradwyo, RHAID bodloni pob amod):*

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gellir cadarnhau nad yw'r gwartheg yn yr uned yn dod i gysylltiad ag unrhyw wartheg eraill, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol e.e. drwy ddŵr ffo brwnt | Gellir | ☐ | Na ellir | ☐ | | |
| Mae'r adeiladau wedi eu diogelu'n ddigonol rhag bywyd gwyllt | Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | | |
| Os oes offer, peiriannau a phersonél ac ati'n cael eu rhannu â safle arall, mae cynllun bioddiogelwch digonol ar waith | Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Dd/G | ☐ |
| Mae'r cyfleusterau profi yn bodloni'r canllawiau a nodir yn yr amodau cymeradwyo ac yn ddigonol ar gyfer y nifer o wartheg | Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | | |
| Mae'r gweithredwr wedi cadarnhau y gall Partner Cyflenwi'r uned gynnal y profion ar yr adegau gofynnol | Ydy | ☐ | Nac ydy | ☐ | | |
| Mae'r ymgeisydd yn ymwybodol y caiff manylion ei AFU a'i fanylion cyswllt eu cofnodi ar wefan gyhoeddus | Ydy | ☐ | Nac ydy | ☐ | | |

Unrhyw sylwadau pellach yn ymwneud ag archwilio'r uned?

Cadarnhaf fod yr amodau angenrheidiol ar gyfer cymeradwyo AFU wedi cael eu bodloni ☐

Llofnod Milfeddyg Arolygu APHA Dyddiad

**Rhan DD – Cymeradwyaeth ar gyfer yr Uned Besgi Gymeradwy (AFU)**

Cadarnhaf drwy'r adroddiad hwn a'r cynlluniau atodedig y gellir rhoi cymeradwyaeth i'r uned hon weithredu fel Uned Besgi Gymeradwy ☐

Mae'r gymeradwyaeth yn amodol ar gydymffurfiaeth â'r amodau yn Atodlen 1.

Llofnod Swyddog Arweiniol Milfeddygol Cymru/Milfeddyg Arweiniol APHA Dyddiad

Enw mewn priflythrennau

**Atodlen 1**

**Uned Besgi Gymeradwy (AFU) yng Nghymru**

**Rhestr o amodau ar gyfer cymeradwyo AFU**

- Bydd yr amodau canlynol hefyd yn gymwys i unrhyw wartheg o fuchesi nad ydynt dan gyfyngiadau a ddaw i'r uned gymeradwy i'w magu/pesgi
- Rhaid i'r holl wartheg a symudir i'r AFU:
    - os cânt eu caffael yn uniongyrchol o fuchesi dan gyfyngiadau TB neu'n anuniongyrchol drwy Arwerthiant Arbennig TB (‘marchnad oren’) yng Nghymru neu Loegr, fod wedi cael eu symud o dan drwydded ac wedi cael prawf twbercwlin negatif yn ystod y 90 diwrnod diwethaf, ac eithrio anifeiliaid o dan 42 diwrnod oed ar y dyddiad y cânt eu symud, nad oes angen iddynt gael prawf cyn symud.
    - os cânt eu caffael yn uniongyrchol o AFU yng Nghymru, neu AFU/Uned Besgi Gymeradwy (Uwch) â Phori (AFUE Lloegr yn unig), neu'n anuniongyrchol drwy Arwerthiant Arbennig TB, rhaid eu bod wedi'u symud o dan drwydded, ond nid oes angen i wartheg cymwys (42 diwrnod oed neu hŷn) fod wedi cael prawf twbercwlin negatif yn y 90 diwrnod diwethaf. Os na chydymffurfiwyd ag amodau'r gymeradwyaeth yn naill ai'r AFU/AFUE wreiddiol neu AFU/AFUE pen y daith, yn archwiliad diwethaf APHA a bod y gweithredwr wedi cael gwybod am hyn, yna bydd angen i wartheg cymwys fod wedi cael prawf cyn symud.
    - cael eu caffael o fuchesi nad ydynt dan gyfyngiadau TB, sy'n golygu nad oes angen iddynt fod wedi cael prawf cyn symud
    - peidio â bod yn adweithyddion nac yn adweithyddion amhendant i'r prawf twbercwlin, nac yn gysylltiadau uniongyrchol. Rhaid mynd â phob un o'r rhain yn uniongyrchol i gael eu lladd o'r fuches dan gyfyngiadau TB
    - bod heb symud o AFU/AFUE i AFU/AFUE arall yn flaenorol. Dim ond unwaith y caiff gwartheg symud i AFU yng Nghymru o AFU arall/AFUE
- Rhaid i'r holl wartheg yn yr uned gymeradwy symud:
    - i gael eu lladd, naill ai'n uniongyrchol gan ddefnyddio'r Drwydded Gyffredinol (TB24g) neu drwy farchnad ladd neu ganolfan gasglu benodedig gymeradwy (o dan drwydded (TB24b)) pan fydd yn rhaid i amodau'r drwydded honno fod yn gymwys, h.y. rhaid i'r gwartheg fod wedi cael prawf TB clir yn ystod y 90 diwrnod blaenorol
    - yn uniongyrchol i AFU arall yng Nghymru neu i AFU/AFUE yn Lloegr o dan drwydded TB16/TB16e. Dim ond unwaith y caiff gwartheg symud o AFU yng Nghymru i AFU arall yng Nghymru
    - i Arwerthiant Arbennig TB (‘marchnad oren’) dan drwydded TB16b/TB16e. Gellir symud anifeiliaid sydd eisoes wedi symud i AFU yng Nghymru o AFU, neu AFUE, dan drwydded (TB16b/TB16b(Cymraeg)/TB16e/TB16e (Cymraeg)) i Arwerthiant Arbennig TB, ond, fel un o amodau'r drwydded, dim ond eu gwerthu yn yr Arwerthiant Arbennig TB i'w lladd, neu i AFU/AFUE yn Lloegr a ganiateir wedi hynny.
- Rhaid nad oes modd i anifeiliaid a allai gael TB y tu allan i'r AFU ddod i gysylltiad uniongyrchol nac anuniongyrchol (e.e. rhannu cafnau/offer/personél)
- Rhaid i'r gwartheg yn yr AFU gael eu cadw mewn adeilad sy'n ddiogel rhag bywyd gwyllt ac sy'n ddigonol ar gyfer nifer y gwartheg y caiff yr AFU ei chymeradwyo i'w cadw
- Yn y cyd-destun hwn mae bywyd gwyllt yn cyfeirio at rywogaethau o famaliaid gwyllt sy'n gallu gweithredu fel cronfeydd o M. bovis (e.e. moch daear ac, o bosibl, carw gwyllt) ac mae amodau addas yn cynnwys y canlynol:

- Ni ddylai ochrau'r adeilad fod yn agored ond dylent fod o adeiladwaith llyfn a chadarn (h.y. fel na all bywyd gwyllt afael ynddynt) ac o leiaf 1.5m o uchder
    - Dylai'r drysau fod o adeiladwaith llyfn a chadarn (h.y. fel na all bywyd gwyllt afael ynddynt) a dylent fod o leiaf 1.5 metr o uchder (gellir ychwanegu dalenni metel solet at glwyd â phum bar)
    - Ni ddylai bylchau wrth ochrau drysau, clwydi a waliau ac oddi tanynt fod yn fwy na 7.5cm ac ni ddylai bod modd eu gwneud yn fwy drwy gloddio neu gnoi
    - Lle bo elifion neu ddŵr gwastraff yn draenio i mewn i ffos gerrig, ni ddylai bywyd gwyllt allu mynd i mewn iddi a gellid defnyddio ffensys gwifren neu drydan addas i atal hynny rhag digwydd. Bydd hyn yn atal yr amgylchedd a'r bywyd gwyllt rhag cael eu halogi
    - lle y bo'n briodol, gellir defnyddio ffensys trydan ar ffiniau'r AFU er mwyn sicrhau na all bywyd gwyllt fynd i mewn iddi (yr arfer orau yw cynnwys storfeydd porthiant ac wyneb silwair ac ati hefyd er mwyn osgoi ychwanegu at y risg o glefyd gan fywyd gwyllt lleol). Lle y caiff ffensys trydan eu defnyddio, mae'n bwysig nodi y dylai'r gwifrau fod wedi'u gosod 10, 15, 20 a 30cm uwchlaw'r ddaear
- Dylai'r offer a'r peiriannau a ddefnyddir yn yr AFU fod wedi'u neilltuo i'r AFU hon yn unig oni bai:
    - bod yr halogiad ar lefel lle y bo'n realistig disgwyl gallu ei lanhau yn foddhaol gan ddefnyddio chwipolchwr a diheintydd. Caiff halogiad ei asesu yn unol â'r risg. Er enghraifft, gall wagen borthi a rennir nad yw'n mynd i ardaloedd gwartheg nac yn dod o fewn cyrraedd gwartheg fod yn dderbyniol, ond ni fydd crafwr tail a rennir yn dderbyniol
    - dylid delio ag unrhyw halogiad ar unwaith ac yn sicr cyn y bydd cyswllt ag unrhyw dda byw eraill a allai gael TB
    - bydd protocol bioddiogelwch llawn ac effeithiol ar waith ar gyfer yr holl offer a pheiriannau a rennir
- Dylai fod personél penodol ar gyfer yr uned neu, ar y lleiaf, ddillad uchaf un pwrpas neu ddillad diddos y gellir eu diheintio
- Rhaid bod cyfleusterau profi pwrpasol digonol; dylai'r rhain gynnwys o leiaf wasgfa, rhedfa ddigon hir, buarth casglu a man profi dan do
- Cyfrifoldeb y gweithredwr yw lles y gwartheg ac ni chaniateir gorlenwi
- Rhaid bod system ar waith i gasglu dŵr ffo ac elifion o'r uned sy'n atal cyrsiau dŵr rhag cael eu halogi
- Rhaid i gyfleusterau fod ar gael i storio tail, hen sarn a slyri. Ar ôl eu tynnu ymaith, dylai tail a slyri gael eu trin a'u storio fel y nodir ar gefn ffurflen yr Hysbysiad yn ei Gwneud yn Ofynnol i Lanhau a Diheintio (BT05), fel bod modd anactifadu Mycobacterium bovis. Wedyn, rhaid taenu'r slyri a'r tail (i ffwrdd o'r AFU) ar dir âr neu, fel arall, ar dir pori na fydd da byw a allai gael TB yn mynd arno am o leiaf 60 diwrnod. Dylai slyri gael ei daenu drwy ei chwistrellu, neu drwy ddull arall sy'n lleihau'r risg o ledaenu erosol. Rhaid cadw cofnodion o bob lleoliad a dyddiad taenu o'r fath.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Stamp HM3** | Enw: | | Dyddiad Derbyn: | | WS ID: | |

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.